# Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1

**LC1(3)-06-09 (p1): 5 Mawrth 2009**

## Darnau o ddeddfwriaeth sydd ar y gweill ar gyfer rhaglen waith Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1

### Diben

1. Diben y papur hwn yw cynghori'r Aelodau ynghylch y darnau o ddeddfwriaeth sydd ar y gweill ac y mae'r Pwyllgor Busnes wedi'u cyfeirio at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 (LC1).

### Cefndir

2. Ar 24 Chwefror, dyrannodd y Pwyllgor Busnes y darnau a ganlyn o ddeddfwriaeth sydd ar y gweill i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1: - Mesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch Comisiynydd Safonau Cymru. Bydd y Pwyllgor yn trafod y Mesur arfaethedig yng Nghyfnod 2. Rhagwelir y bydd Cyfnodau 2- 4 wedi'u cwblhau er mwyn medru cael cymeradwyaeth Frenhinol erbyn Cyfarfod y Cyfrin Gyngor ym mis Gorffennaf 2009, os bydd y Cynulliad yn cymeradwyo bwrw ymlaen â'r Mesur arfaethedig. - Y Mesur Arfaethedig Bwyta'n Iach mewn Ysgolion. Cytunodd y Cynulliad ag egwyddorion y darn hwn o ddeddfwriaeth a gyflwynwyd gan Aelod (Jenny Randerson AC yw'r Aelod sy'n gyfrifol amdano) ar 15 Hydref 2008. Bydd y Pwyllgor yn dechrau Cyfnod 2. - Y Mesur Arfaethedig Cludo Gwastraff i'w Adfer (Ymgysylltiad y Gymuned â'r Trefniadau). Cyflwynwyd y Mesur hwn gan Nerys Evans AC ar 5 Tachwedd 2008. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi gofyn i'r Pwyllgor adrodd yn ôl ar drafodion Cyfnod 1 erbyn diwedd mis Tachwedd 2009. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Pwyllgor yn cynnal yr ymgynghoriad yn ystod toriad yr haf.

### Camau i'r Pwyllgor eu cymryd

3. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r darnau o ddeddfwriaeth sydd ar y gweill ac a gyfeiriwyd ato i'w trafod.

Y Swyddfa Ddeddfwriaeth
Mawrth 2009